**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau

1 Mehefin 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr ynghylch deiseb P-06-1263 Rheoli llygredd sy'n deillio o waith amaethyddol yn y rhannau o Afon Gwy ac Afon Hafren a leolir yng Nghymru.

Yn anffodus, mae'r Pwyllgor eisoes wedi cwblhau ei waith ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Cymeradwyodd yr Aelodau'r adroddiad terfynol yn ein cyfarfod ar 26 Mai. Ar hyn o bryd mae'n mynd drwy'r gwiriadau terfynol cyn cael ei gyhoeddi. Rydym yn gobeithio cyhoeddi ar 8 Mehefin.

Fel y gwyddoch, gofynnodd y cynnig yn y Cyfarfod Llawn inni adolygu'r Rheoliadau 'ar frys'. Fodd bynnag, gohiriwyd y gwaith hwn o ganlyniad i her gyfreithiol i'r Rheoliadau gan NFU Cymru ond mae Aelodau fy mhwyllgor bellach yn awyddus i gwblhau'r gwaith hwn ar unwaith.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament